University of South Wales
Prifysgol De Cymru

Caerdydd | Casnewydd | Pontypridd

MEISTROLI EICH YFORY

CANLLAW ÔL-RADDEDIG, PROFFESIYNOL AC YMCHWIL 2023

PAM PDC

Mae dewis gradd ôl-raddedig ym Mhrifysgol De Cymru yn golygu y byddwch yn rhan o amgylchedd astudio amrywiol, hyblyg a chroesawgar, sy'n rhoi'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen arnoch ar gyfer gyrfaoedd yn y dyfodol. Nid yn unig y bydd gennych botensial i ennill cyflog uwch, ond byddwch hefyd yn sefyll allan mewn marchnad swyddi gystadleuol.

Y 4 RHESWM GORAU

1 HYBLYGRWYDD

Wrth i bobl symud i addysg bellach rydym yn deall bod bywyd yn parhau i symud hefyd, mae rhai o'n myfyrwyr ôl-raddedig yn ymgymryd ag ymrwymiadau personol ac am oes ar hyd y ffordd. Mae'r rhan fwyaf o'n cyrsiau yn rhai llawn-amser ond rydym hefyd yn cynnig rhai rhan-amser a rhywfaint o ddysgu o bell, i ganiatáu cymaint o hyblygrwydd â phosibl i chi a'ch astudiaethau.

2 CYFLOGADWYEDD

Rydym yn sicrhau bod eich cwrs yn canolbwyntio 100% ar yr hyn y mae ei angen ar gyflogwyr yn y dyfodol, drwy ddatblygu a chyflwyno ein cyrsiau mewn partneriaethau unigryw gyda chyflogwyr, y sector cyhoeddus a chyrff cenedlaethol. Mae ein cyfleusterau wedi'u creu'n bwrpasol ac o safon y diwydiant, a dyna pam mae astudio yn PDC mor agos ag y gallwch fynd at fod mewn diwydiant tra byddwch chi yn y brifysgol.

3 LLESIANT

Mae'r Gwasanaeth Llesiant yn cynnig cyngor, cwnsela a chymorth am ddim i holl fyfyrwyr PDC. Er mwyn helpu i greu gwell yfory, rydym yn croesawu trafodaethau am eich iechyd meddwl a chorfforol, lles cymdeithasol a llawer mwy.

CYNNWYS

Pam PDC	2
O Israddedigion i Raddedigion	4
Dewiswch Eich Llwybr	6
Ein Hymchwil Ni	8
Ysgol i Raddedigion	10
Ein Heffaith	12
Cyfleusterau	14
Cyflogadwyedd	16
Eich Llesiant	18
Cefnogaeth Ryngwladol	20
Caerdydd	22
Casnewydd	24
Pontypridd	26
Sut i Wneud Cais	28
Ffioedd a Chyllid	30
Llety	32
Teulu PDC	34
Storïau Myfyrwyr	36
Mynegai Cyrsiau	42
Achrediadau	49
Gwybodaeth Ddefnyddiol	50
Ein Hymrwymiad	51

4

HUNAN-DDATBLYGIAD

Rydym yn deall bod dysgu gydol oes yn hanfodol ac efallai y byddwch chi eisiau gwella eich sgiliau mewn maes pwnc yr ydych chi'n hoff iawn ohono. Mae ein graddau'n cael eu haddysgu gan academyddion sy'n arweinwyr y byd yn eu meysydd astudio. Yn dibynnu ar eich cwrs, byddwch yn cael eich cefnogi drwy sesiynau unigol gyda Hyfforddwr Academaidd Personol.

O ISRADDEDIGION I RADDEDIGION

Mae llawer o israddedigion PDC yn mwynhau eu hamser cymaint nes eu bod yn penderfynu aros a dechrau gradd ôl-raddedig. Mae llawer o fanteision o aros gyda PDC:

MAE'N GYFARWYDD

Rydych chi wedi gwneud ffrindiau gwych ac wedi arfer dod o hyd i'ch ffordd o amgylch y campws. Rydych chi'n gwybod lle mae'r lleoedd gorau i fachu tamaid i'w fwyta a ble i ymgynnull ar gyfer cymdeithasu. Rydych yn teimlo'n hollol gartrefol.

CYSYLLTIADAU GWYCH

Byddwch hefyd wedi meithrin cysylltiadau gwych gyda staff academaidd a mentoriaid sy'n gwneud eich astudio a'ch profiad addysgu yn fwy arbennig.

HYBLYGRWYDD

Mae llawer o'n cyrsiau yn rhai rhan-amser ac rydym yn cynnig rhywfaint o ddysgu o bell, sy'n golygu nad oes rhaid i chi aros ar y campws i astudio os nad ydych chi'n dymuno hynny. Ond byddwch chi'n dal i brofi ein haddysgu o'r radd flaenaf.

MANTEISION

Fel myfyriwr israddedig diweddar fe gewch chi fwynhau llwyth o fanteision, o wasanaethau gyrfaoedd am ddim i ostyngiadau ac ysgoloriaethau.

George Soave a Duncan Hallis, MA Drama

“

ROEDD YR MA YN FFORDD WYCH O BONTIO RHWNG FY NGRADD A GWEITHIO MEWN CYD-DESTUN PROFFESIYNOL. FE WNAETH ROI BLWYDDYN ARALL I FI I DDOD I WYBOD BETH ROEDDWN I EISIAU EI WNEUD A SUT ROEDDWN I EISIAU MYND ATI I'W GYFLAWNI.

Duncan Hallis
MA Drama

Adam Roberts, MSc Rheoli Prosiect Adeiladu

DEWISWCH EICH LLWYBR

Mae cymwysterau ôl-raddedig ar gael ar wahanol lefelau, o Dystysgrifau Ôl-raddedig i PhD.

BETH DDYLWN I EI ASTUDIO?

Mae **cyrsiau a addysgir** yn cynnwys darlithoedd a seminarau, gyda thraethawd hir neu brosiect i ddilyn. Mae cyrsiau ar gael yn llawn-amser, rhan-amser neu drwy ddysgu o bell.

Mae **graddau ymchwil** yn golygu eich bod yn cael astudio maes yn fanwl, adrodd am eich canfyddiadau a chael eich asesu drwy arholiad llafar. Gallwch astudio graddau ymchwil llawn-amser neu ran-amser.

Mae **datblygiad proffesiynol** yn ddewis gwych os nad ydych eisiau ymrwymo i radd lawn, ac rydym yn cynnig ystod o gyrsiau byr. Datblygu sgiliau, offer a thechnegau newydd mewn amrywiaeth o feysydd, o reoli prosiectau i gaffael a chyflenwi.

> **MAE CYMYSGEDD DA O FYFYRWYR LLAWN-AMSER A RHAN-AMSER. MAE LLAWER YN GWEITHIO YM MYD DIWYDIANT WRTH ASTUDIO.**
>
> **Adam Roberts**
> MSc Rheoli Prosiect Adeiladu

SUT DYLWN I ASTUDIO?

Astudio llawn-amser

Os dewiswch astudio llawn-amser fel arfer byddwch yn gymwys mewn blwyddyn yn unig. P'un a ydych yn parhau'n syth ar ôl eich cwrs gradd neu os ydych yn dychwelyd i ddysgu, byddwn yn eich cefnogi.

Astudio rhan-amser

Mae tua hanner ein myfyrwyr yn astudio'n rhan-amser ac yn ymestyn eu hastudiaethau dros ychydig flynyddoedd. Mae ein hymagwedd realistig at addysgu yn golygu bod gan y rhan fwyaf o gyrsiau opsiynau rhan-amser. Trefnwch eich llwyth gwaith o amgylch ymrwymiadau presennol, gwaith neu fywyd teuluol.

Dysgu o bell

Ymunwch â'n llu o fyfyrwyr sy'n astudio ar-lein. Mae ein haddysgu digidol yn cynnwys seminarau ar-lein, darlithoedd byw, cyflwyniadau sgrin werdd a byrddau trafod. Mae cyfleusterau e-ddysgu trawiadol yn golygu y gallwch gael gafael ar wybodaeth pan fydd yn gyfleus i chi.

EIN HYMCHWIL NI

Ym Mhrifysgol De Cymru rydym yn darparu datrysiadau i broblemau sy'n effeithio ar gymdeithas, a'r economi yw sail ymchwil yn PDC. Rydym ni'n canolbwyntio ar eich llwyddiant chi nid ein llwyddiant ni. Mae ein henw da yn cael ei gyflawni drwy effaith ein graddedigion, ein hymchwil a'n partneriaethau. Maen nhw'n gweithio i newid ein byd a'n bywydau er gwell.

GRADDAU MEISTR TRWY YMCHWIL (MA NEU MSc)

Byddwch yn cyflwyno ac yn amddiffyn, drwy archwiliad llafar, draethawd ymchwil sy'n dangos ymchwiliad beirniadol a dadansoddiad o bwnc. Bydd astudio llawn-amser yn cymryd blwyddyn, a bydd rhan-amser yn cymryd dwy flynedd. Bydd y traethawd ymchwil y byddwch yn ei gyflwyno hyd at 40,000 o eiriau.

GRADD MEISTR MEWN ATHRONIAETH

Byddwch yn cyflwyno ac yn amddiffyn, drwy archwiliad llafar, draethawd ymchwil sy'n dangos ymchwiliad beirniadol a dadansoddiad o bwnc. Bydd astudio llawn-amser yn cymryd hyd at ddwy flynedd, a bydd rhan-amser yn cymryd tair blynedd. Bydd y traethawd ymchwil y byddwch yn ei gyflwyno hyd at 60,000 o eiriau.

DOETHURIAETH MEWN SEICOLEG CWNSELA (DPsych)

Mae'r Ddoethuriaeth Broffesiynol hon wedi'i achredu gan Gymdeithas Seicolegol Prydain (BPS) a'i gymeradwyo gan yr HCPC. Mae myfyrwyr yn cwblhau 450 o oriau clinigol dan oruchwyliaeth ac addysgir modiwlau ar lefel Meistr a Doethuriaeth. Byddwch yn cyflwyno traethawd ymchwil hyd at 50,000 o eiriau ac yn amddiffyn eich gwaith ar lafar.

DOETHURIAETH MEWN GWEINYDDIAETH BUSNES (DBA)

Mae'r Ddoethuriaeth Broffesiynol hon yn cymryd tair i bedair blynedd llawn-amser a phump i chwe blynedd yn rhan-amser. Byddwch yn cwblhau elfennau a addysgir ar lefel uwch ac ymchwil annibynnol dan oruchwyliaeth. Byddwch yn dangos cyfraniad gwreiddiol ac yn cyflwyno traethawd ymchwil o hyd at 100,000 o eiriau ac yn amddiffyn eich gwaith ar lafar.

DOETHURIAETH MEWN ATHRONIAETH (PhD)

PhD drwy Draethawd Ymchwil: Y llwybr mwyaf poblogaidd ar gyfer ennill PhD. I ddechrau, byddwch yn cofrestru ar gyfer MPhil/ PhD. Byddwch yn cyflwyno ar gyfer archwiliad ac yn amddiffyn traethawd ymchwil y mae'n rhaid iddo wneud cyfraniad gwreiddiol at wybodaeth. Gallwch gofrestru'n uniongyrchol ar gyfer PhD os oes gennych radd Meistr gydag elfen ymchwil sylweddol. Fel arfer mae'n cymryd rhyw dair i bedair blynedd llawn-amser a hyd at bum mlynedd yn rhan-amser. Bydd y traethawd ymchwil y byddwch yn ei gyflwyno hyd at 100,000 o eiriau.

PhD drwy Bortffolio: Byddwch yn cyflwyno ar gyfer archwiliad ac yn amddiffyn portffolio cymeradwy o hyd at dri phrosiect, ynghyd â throsolwg beirniadol. Dylent ddangos cyfraniad annibynnol a gwreiddiol at wybodaeth sy'n cyfateb i draethawd PhD. Mae'n cymryd rhwng un a phum mlynedd i'w gwblhau'n rhan-amser.

PhD drwy Gyhoeddi: Os oes gennych gorff cymeradwy o waith cyhoeddedig, ac â chysylltiadau cryf â PDC neu os ydych yn aelod o staff presennol neu'n gyn aelod o staff neu'n gyn-fyfyriwr, efallai y byddwch yn gymwys i wneud cais. Byddwch yn cyflwyno ar gyfer archwiliad ac yn amddiffyn y gwaith yr ydych wedi'i gyhoeddi, ynghyd â throsolwg beirniadol. Dylai eich gwaith ddangos awduraeth a gwreiddioldeb sylweddol. Mae'n cymryd rhwng un a dwy flynedd i'w gwblhau yn rhan-amser.

YSGOL I RADDEDIGION

Mae'r Ysgol i Raddedigion yn gartref i raglenni ymchwil ôl-radd a'r pwynt cyswllt cyntaf os oes gennych ddiddordeb mewn gradd ymchwil.

CYSYLLTU Â NI

gradschool@southwales.ac.uk
gradschool.southwales.ac.uk

USWresearch

Y GYMUNED ÔL-RADDEDIG

Bydd myfyrwyr ymchwil yn cael eu cofrestru a'u goruchwylio gan academyddion arbenigol yn eu cyfadran. Mae'r Ysgol i Raddedigion yn darparu llawer o gyfleoedd datblygu cynhwysfawr, sy'n dod ag ymchwilwyr o wahanol ddisgyblaethau at ei gilydd mewn un gymuned.

GOFOD HYBLYG

Mae gofod hyblyg yr Ysgol i Raddedigion wedi'i gynllunio gydag astudiaeth ymchwil ôl-raddedig mewn golwg. Mae'n cynnwys mannau ar gyfer hunan-astudio, goruchwylio a chyfarfodydd grŵp, gweithdai a seminarau, a digwyddiadau rhwydweithio.

SUT I YMGEISIO

1

PENDERFYNWCH AR EICH PWNC YMCHWIL.

2

CYSYLLTWCH Â'N HYSGOL I RADDEDIGION I DRAFOD LLE MAE'CH PWNC YN FFITIO.

3

YSGRIFENNWCH GYNNIG O HYD AT 2,000 O EIRIAU. I GAEL MANYLION EWCH I'N GWEFAN.

4

CYFLWYNWCH EICH CYNNIG A DOGFENNAU ATEGOL DRWY EIN TUDALENNAU YMGEISIO. GALL Y BROSES ADOLYGU CYNNIG GYMRYD SAWL WYTHNOS.

5

EFALLAI Y BYDD EICH PROSIECT YN CAEL EI HUNAN-ARIANNU, NEU EFALLAI Y BYDDWCH YN GYMWYS I GAEL YSGOLORIAETH NEU GYLLID. CYSYLLTWCH Â'N HYSGOL I RADDEDIGION.

6

BYDD YMGEISWYR LLWYDDIANNUS YN CAEL CYNNIG I DDECHRAU NAILL AI YM MIS HYDREF, MIS IONAWR NEU FIS EBRILL.

EIN HEFFA

Mae effaith PDC ar y rhanbarth, ar Gymru, ac ar y DU yn glir. Rydym ni wedi'n gwreiddio yn ne Cymru ond eto, gellir teimlo ein cyfraniad at yr economi a chymdeithas yn bell ac agos. Nid yw ein heffaith yn un ariannol yn unig – mae'r Brifysgol heb amheuaeth yn creu swyddi yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, yn ysgogi'r economi ehangach drwy ein myfyrwyr a'n staff, ac yn cynorthwyo'r farchnad swyddi drwy gynhyrchu graddedigion medrus iawn bob blwyddyn sy'n barod i weithio yn y diwydiant y maent wedi'i ddewis. Ond rydym ni'n gwneud cymaint mwy na hynny.

DARLLENWCH RAGOR

MAE ARCHFYGIAU MEWN CARTHION YN HELPU I DROI ALLYRIADAU CYNHYRCHU DUR YN DDEUNYDDIAU CRAI CYNALIADWY AR GYFER DIWYDIANNAU ERAILL

Mae biliynau o facteria microsgopig yn helpu gwyddonwyr i droi allyriadau o ffwrneisi chwyth Tata Steel yn gynnyrch a allai gael ei ddefnyddio gan ddiwydiannau eraill i wneud cynhyrchion o becynnau bwydydd i fwydo anifeiliaid. Sefydlwyd prosiect treialu, dan arweiniad Prifysgol De Cymru (PDC), mewn dwy ffwrnais enfawr sy'n cynhyrchu haearn ym Mhort Talbot. Er ei fod yn dal yn ei ddyddiau cynnar, mae'r prosiect eisoes wedi dangos canlyniadau addawol.

ITH

PARTNERIAETH CLINIGAU CYNGOR CYFREITHIOL PDC YN HELPU POBL SY'N PROFI DIGARTREFEDD

Mae prosiect sy'n helpu i roi cyngor cyfreithiol am ddim i bobl sy'n profi digartrefedd yng Nghaerdydd wedi ennill gwobr genedlaethol i gydnabod ei effaith ar y gymuned.

Cafodd Cardiff Lawyers Care – partneriaeth rhwng Clinig Cyngor Cyfreithiol PDC, Cymdeithas y Gyfraith Caerdydd a'r Cylch a'r elusen ddigartrefedd The Wallich, ei enwi'n enillydd Gwobr LawWorks Cymru, sy'n cydnabod gwaith pro bono yng Nghymru.

DARLLENWCH RAGOR

PDC YN DYBLU EI YSGOLORIAETHAU NODDFA I FYFYRWYR SY'N FFOADURIAID

Mae PDC yn ehangu ei Hysgoloriaethau i ffoaduriaid a phobl sy'n chwilio am noddfa yng Nghymru. O 2023 ymlaen, bydd PDC yn cynnig dwy ysgoloriaeth lefel ôl-raddedig ac israddedig, yn ogystal â rhoi cymorth pellach i ffoaduriaid sydd eisiau astudio ar lefel Addysg Uwch ond nad ydynt yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf. Fel Prifysgol Noddfa – un o ddim ond dwy yng Nghymru gyda'r statws hwn – mae PDC yn dyblu ei darpariaeth ysgoloriaeth yn unol â'i Chynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer cynyddu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant.

DARLLENWCH RAGOR

CYFLEUSTERAU

CANOLFAN EFELYCHU HYDRA

Mae Canolfan Efelychu Hydra yn darparu amgylchedd dysgu ac addysgu unigryw ac fe'i defnyddir i gynnal senarios ymgolli, efelychiadol ar gyfer amrywiaeth o fyfyrwyr o'n Gwyddorau Heddlu, Nyrsio a Gwaith Cymdeithasol i gyrsiau Iechyd y Cyhoedd, Busnes a Marchnata. Mae Hydra yn offeryn hyfforddi sy'n galluogi monitro dynameg grŵp, arweinyddiaeth amser real a gwneud penderfyniadau naturiolaidd mewn digwyddiadau critigol. Mae senarios yn rhai o ymgolli ac yn aml yn efelychu amodau bywyd go iawn, gan alluogi myfyrwyr i ymdrin â sefyllfaoedd go iawn mewn amgylchedd dysgu diogel.

CYFLEUSTERAU ADDYSGU AC ADDYSG

Yn PDC Casnewydd, byddwch yn dysgu mewn amgylchedd sy'n eich paratoi chi'n llawn ar gyfer byd gwaith. Mae yna fannau sy'n ail-greu gwahanol fannau dysgu gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, labordai gwyddoniaeth a mannau dysgu hyblyg yn ogystal ag adnoddau technolegol gan gynnwys realiti estynedig a rhithwir. Mae'r Brifysgol yn Ganolfan Hyfforddiant Rhanbarthol Apple achrededig.

LABORDAI SAFLEOEDD TROSEDDAU A CHYFLEUSTERAU HYFFORDDI

Defnyddir ein labordai safleoedd troseddau gan fyfyrwyr gwyddoniaeth fforensig a phlismona proffesiynol i ddysgu mwy am fathau penodol o dystiolaeth fel olion bysedd, marciau esgidiau, olion teiars a phatrymau ysgeintiadau gwaed. Mae ein tŷ archwilio safleoedd troseddau yn cynnwys nifer o efelychiadau o safleoedd troseddau realistig – o fyrgleriaethau domestig ac achosion o dorri i mewn, i safleoedd mwy cymhleth fel dynladdiadau a thanau angheuol.

CANOLFAN EFELYCHU CLINIGOL

Mae ein Canolfan Efelychu Clinigol yn efelychu amgylcheddau clinigol ar gyfer addysg a hyfforddiant. Mae'r rhain yn cynnwys dwy ystafell pedwar gwely i efelychu lleoliad ysbyty, cyfleusterau pediatrig a mamolaeth pwrpasol, gan gynnwys uned gofal arbennig babanod, amgylchedd gofal dwys ac adran achosion brys gydag efelychydd ambiwlans llawn offer.

PARC CHWARAEON PDC

Dewch i gael profiad ymarferol ym Mharc Chwaraeon PDC sy'n werth miliynau o bunnau, lle byddwch yn defnyddio'r un cyfleusterau, offer a thechnegau sy'n denu athletwyr elît a thimau proffesiynol o bob cwr o'r byd. Yn PDC, mae pob myfyriwr chwaraeon yn cael dillad chwaraeon PDC o ansawdd uchel heb unrhyw gost ychwanegol, gan sicrhau bod gan bob myfyriwr yr adnoddau proffesiynol ar gyfer dysgu ymarferol.

CYFLOGADWYEDD

Bob blwyddyn, mae PDC yn gwneud cyfanswm o £1.1 biliwn o gyfraniad economaidd ac yn cefnogi 10,600 o swyddi yn y DU.

Rydym yn datblygu ac yn cyflwyno ein cyrsiau mewn partneriaethau unigryw gyda chyflogwyr. Mae hyn yn sicrhau bod eich gradd yn gyfredol, mae ein hoffer yn rhai o'r radd flaenaf ac mae lleoliadau gwaith yn berthnasol, i gyd i roi'r sgiliau i chi y bydd cyflogwyr eu hangen yn y dyfodol. Dyna pam mae 95% o'n graddedigion mewn gwaith llawn-amser neu mewn astudiaeth bellach o fewn chwe mis. (DHLE 2018)

GYRFAOEDD

Mae Gyrfaoedd PDC yma i'ch annog a'ch tywys drwy gydol eich amser tra byddwch yn fyfyriwr yn PDC a hyd yn oed ar ôl i chi raddio. O brofiad gwaith, gweithdai ysgrifennu CV a hyfforddi ar gyfer cyfweliad, i'ch helpu i archwilio opsiynau gyrfa a chefnogi menter myfyrwyr, rydym yma i'ch helpu i gyflawni eich uchelgeisiau.

GO WALES

Mae PDC yn bartner yn rhaglen Cyflawni drwy Brofiad Gwaith GO Wales sy'n cael ei hariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Mae hon yn cefnogi myfyrwyr cymwys sydd â rhwystrau rhag cael mynediad at brofiad gwaith.

CYNLLUN GRADDEDIGION PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD

Mae PDC yn bartner strategol ar gynllun interniaeth i gysylltu graddedigion â busnesau yng Nghaerdydd. Mae Interniaid yn cael cyflogaeth lefel graddedigion, rhwydwaith proffesiynol newydd a chymhwyster wedi'i ariannu'n llawn.

MENTER MYFYRWYR

Mae ein gwasanaethau menter i fyfyrwyr yn cynnig cefnogaeth a mentora unigol drwy gydol y flwyddyn, yn ogystal ag ystod o ddigwyddiadau a gweithdai rhyngweithiol i fyfyrwyr a graddedigion sydd â diddordeb mewn datblygu eu sgiliau menter.

ENACTUS PDC

Gyda chefnogaeth Ysgol Fusnes De Cymru a Menter Myfyrwyr, mae gan ein sefydliad rhyngwladol dan arweiniad myfyrwyr dros 72,000 o aelodau mewn 37 o wledydd. Mae'n trefnu cyfleoedd datblygu, teithiau, penwythnosau hyfforddi a chystadlaethau.

MAE PDC YN BARTNER STRATEGOL AR GYNLLUN INTERNIAETH I GYSYLLTU GRADDEDIGION Â BUSNESAU YNG NGHAERDYDD.

PARTNERIAETHAU

- Admiral • Amazon
- BBC • BT • Capital Law
- Deloitte • GE Aviation
- Hilton • Hugh James
- John Lewis • Next
- NHS Wales
- PricewaterhouseCoopers
- South Wales Police
- Tata Steel
- Llywodraeth Cymru

EICH LLESIANT

Er mwyn helpu i adeiladu gwell yfory, rydym ni'n eich croesawu i drafod pynciau ynglŷn â'ch iechyd corfforol a meddyliol.

Rydym yn gofalu am ein myfyrwyr ac yn gwneud ein gorau glas i ofalu am eich holl anghenion. O'n gwasanaeth anabledd a llesiant cyfrinachol am ddim, i'n llyfrgelloedd anhygoel a'n gofal plant ar y campws.

CYNGOR I FYFYRWYR

Y Parth Cyngor yw'r lle cyntaf i fynd gyda'ch holl ymholiadau myfyrwyr. Cewch gymorth a gallwch drefnu apwyntiadau ar-lein, neu mae tîm wyneb yn wyneb cyfeillgar ar bob campws.

ARIAN MYFYRWYR

Mewn cyfnod ansicr mae'n rhaid i chi fuddsoddi mewn rhywbeth yr ydych chi eich hun yn credu ynddo. Dysgwch sut y gallwch ariannu eich astudiaethau a dechrau eich yfory yn PDC. Gall ein tîm Cyngor ar Arian Myfyrwyr eich helpu i reoli eich arian a chynnig cyngor ar gyllid myfyrwyr.



CYMORTH ANABLEDD

Mae'r Gwasanaeth Anabledd yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i fyfyrwyr anabl Prifysgol De Cymru ac yn eu cydlynu. Mae hyn yn cynnwys myfyrwyr ag anableddau corfforol, synhwyraidd, iechyd meddwl neu anableddau anweledig, anawsterau dysgu penodol (e.e. dyslecsia) ac awtistiaeth. Rydym yn darparu gwasanaeth cyfrinachol pryd gallwch drafod eich gofynion unigol.

Gallwn eich cynghori ynglŷn â pha gymorth sydd ar gael a'ch helpu i wneud cais amdano. Am fanylion pellach ewch i:
disability.southwales.ac.uk/anabledd/

RYDYM YN GOFALU AM EIN MYFYRWYR AC YN GWNEUD EIN GORAU GLAS I OFALU AM EICH HOLL ANGHENION.

CEFNOGAETH RYNGWLADOL

Mae Prifysgol De Cymru yn falch o fod yn gymuned wirioneddol ryngwladol, gyda myfyrwyr o 200 o wledydd ar draws y byd.

Er mwyn gwneud eich teithio'n rhwydd, rydym ni'n trefnu gwasanaethau cyrraedd i chi pan fyddwch yn teithio yn y DU am y tro cyntaf. Mae'r rhain ar gael trwy'r flwyddyn o Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd (CWL) a Maes Awyr Heathrow (LHR), Llundain.

CROESO PDC

Mae ein Rhaglen Groeso Ryngwladol yn cynnal digwyddiadau cymdeithasol i'ch helpu i wneud ffrindiau a dod i arfer â bod yn y DU cyn eich cyfnod sefydlu a chofrestru academaidd. Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau am ddim ac yn cynnwys sesiynau gwybodaeth ynghylch byw, dysgu a gyrru yn y DU. Ceir gweithgareddau cymdeithasol, teithiau, dosbarthiadau coginio, picnics a chwisiau.

CYNGOR RHYNGWLADOL I FYFYRWYR

Os ydych chi'n wladolyn o wlad y tu allan i'r DU, efallai y bydd angen fisa arnoch i astudio. Bydd ein tîm Cyngor Mewnfudo a Myfyrwyr Rhyngwladol yn eich cefnogi. Gallwch sgwrsio â chynghorydd trwy ein gwefan neu drwy e-bost: **international.advice@southwales.ac.uk**

FFIOEDD AC YSGOLORIAETHAU

Rydym yn deall bod astudio yn y DU yn fuddsoddiad ariannol mawr, felly rydym yn gwneud astudio yn PDC yn fforddiadwy. Rydym yn cynnig ffioedd dysgu cystadleuol, ysgoloriaethau hael a chynlluniau talu cyfleus. Mae costau byw yn yr ardal yn sylweddol is nag mewn rhannau eraill o'r DU. Rydym yn cynnig ysgoloriaethau sydd werth hyd at £2,500 i fyfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio cyrsiau ôl-raddedig. Rydym hefyd yn brifysgol sy'n bartner yn rhaglen Chevening ac wedi croesawu ysgolorion Chevening o bob cwr o'r byd. Ewch i: **www.southwales.ac.uk/international/fees-scholarships**

SAESNEG RHYNGWLADOL

Mae ein Canolfan Saesneg Rhyngwladol yn cynnig rhaglenni Saesneg ar wahanol lefelau. Mae cyrsiau'n helpu i ddatblygu eich sgiliau yn academaidd ac yn gymdeithasol. Ewch i: **www.southwales.ac.uk/international-english**

DERBYN EICH CYNNIG

Ar ôl i chi gael cynnig, byddwn yn eich cynghori ynghylch derbyn eich lle, a sut i wneud cais am Gadarnhad Derbyn i Astudio (CAS). Ar ôl i chi sicrhau eich CAS, byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi gyda threfniadau cyn gadael a gwybodaeth am lety.

“

AR ÔL I MI RADDIO, RWY'N BWRIADU GWEITHIO FEL CYFARWYDDWR YM MAES RHEOLI GOFAL CWSMERIAID, A RHOI'R WYBODAETH A GEFAIS AR FY NGHWRS AR WAITH.

Happy Mang'ache
Meistr Gweinyddiaeth Busnes (MBA)

CYSYLLTU Â NI

+44 (0)1443 654 450
international@southwales.ac.uk
southwales.ac.uk/international

新浪微博 weibo.com

USWinternational

CAERDYDD

Mae campws Caerdydd PDC yng nghanolfan greadigol y brifddinas.

Mae Caerdydd yn brifddinas fodern, amlddiwylliannol a fydd yn eich synnu. Mae wastad rhywbeth yn digwydd neu fannau newydd i'w darganfod.

Mae llawer o fyfyrwyr PDC yn dewis byw yng Nghaerdydd, hyd yn oed os ydyn nhw'n astudio mewn mannau eraill. Mae'n adnabyddus fel dinas o ddiwylliant ac adloniant – ac mae'n ddinas myfyrwyr boblogaidd sy'n gwybod sut i fwynhau ei hun.

Os ydych chi wedi eich lleoli yng Nghaerdydd beth am archebu tocynnau a chefnogi eich tîm hoci iâ lleol, y Cardiff Devils. Gwyliwch gêm rygbi'r Chwe Gwlad yn Stadiwm Principality. Canwch gyda rhai o enwau mwyaf y byd yn Stadiwm Principality neu Arena Motorpoint neu dewch i amrywiaeth o ddigwyddiadau yng Nghastell Caerdydd.

Os hoffech chi rywbeth mwy hamddenol, gallech fynd am dro o amgylch yr arcedau hynafol neu fwynhau picnic ym Mharc Bute ac yna taith mewn cwch i lawr i'r bae i wylio un o'r cynyrchiadau theatr diweddaraf yng Nghanolfan y Mileniwm.

ATCM Purple Flag™

MAE GAN GAERDYDD ACHREDIAD BANER BORFFOR SY'N GOLYGU EIN BOD YN CYNNIG NOSON ALLAN AMRYWIOL, DDIFYR A DIOGEL.

Campws Caerdydd

Nghanolfan y Mileniwm



Bae Caerdydd

Golygfa Parc Bute, Caerdydd

CASNEWYDD

Mae Casnewydd yn ddinas annibynnol, amlddiwylliannol sy'n llawn syniadau a chyfleoedd.

Mae'n gwneud cais i fod yn Ddinas Diwylliant y DU yn 2025, a fyddai'n ddathliad blwyddyn o amrywiaeth a chymunedau Casnewydd sy'n gyfoethog o ran diwylliant, traddodiad ac ieithoedd.

Mae ein campws modern ar lan yr afon, yn gartref i gymuned o ddysgu sy'n ymroi i wella bywydau pobl.

Mae gan Gasnewydd rywbeth at ddant pawb, o faddondai ac amgueddfeydd Rhufeinig hanesyddol i antur yn y gwlyptiroedd. Gyda'r datblygiad manwerthu Rhodfa'r Brodyr llai na pum munud o'r campws ar droed, gallwch ymlacio gyda thamaid i aros pryd neu fynd i'r gampfa. Mae gan Gasnewydd hefyd amrywiaeth eang o fariau a chlybiau, rhywbeth at ddant pawb, ac mae hyd yn oed yn gartref i'r bragdy sydd wedi ennill sawl gwobr, Tiny Rebel.

Mae Theatr Glan yr Afon hefyd yn darparu llawer o ddigwyddiadau y mae myfyrwyr yn eu mwynhau gan gynnwys nosweithiau comedi, cynyrchiadau drama, ffilmiau a cherddoriaeth fyw. Mae gwaith myfyrwyr hefyd yn cael ei arddangos yn rheolaidd yn Oriel y Theatr.

Llyfrgell, Campws Casnewydd

Canol Ddinas Casnewydd

Marchnad Casnewydd

Campws Casnewydd

PONTYPRIDD

Mae PDC Pontypridd wedi'i hamgylchynu gan fryniau gwyrdd gyda mynediad rhwydd i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy'n syfrdanol ac yn hynod o boblogaidd. Yma, bydd gennych ddigon o le i ganolbwyntio a gorwelion i'w harchwilio.

Mae cymuned amrywiol a chyfeillgar wrth galon ein campws ym Mhontypridd. Yma, fe welwch bopeth sydd ei angen arnoch. Mae neuaddau ar y campws yn rhan fawr o'r awyrgylch gymunedol y mae ein myfyrwyr yn hoff iawn ohono.

O Bontypridd, gallwch fwynhau popeth sydd gan Dde Cymru i'w gynnig - bywyd a diwylliant y ddinas, traethau syfrdanol a chefn gwlad gogoneddus. Mae'n dref sy'n llawn hanes a threftadaeth ac mae digon i'w ddarganfod. Dewch o hyd i gemau cudd yn y marchnadoedd lleol, ewch i nofio yn 'lido' Pontypridd sydd wedi'i gynhesu neu aros ar y campws a mwynhau eich pum munud o enwogrwydd mewn noson karaoke yn Undeb y Myfyrwyr.


Glyntaff, Campws Pontypridd

Parc Chwaraeon PDC


Parc Ynysangharad

Lido Cenedlaethol Cymru, Pontypridd

SUT I WNEUD CAIS

1

Cofrestrwch ar gyfer Digwyddiad Agored: **www.southwales.ac.uk/cymraeg/diwrnodau-agored**

Opsiynau cyllid ymchwil, gan gynnwys benthyciadau ac ysgoloriaethau ôl-raddedig.

2

Gwnewch gais am y cwrs ar-lein: **www.southwales.ac.uk/cymraeg/gwneud-cais**

Mae croeso i chi gysylltu â ni gydag unrhyw gwestiynau.

GWNEUD EICH CAIS

Cyrsiau a Addysgir
I weld ein cyrsiau ewch i:
www.southwales.ac.uk/cymraeg/astudio-ôl-raddedig
Gwneud cais ar-lein:
www.southwales.ac.uk/cymraeg/gwneud-cais

Cyrsiau Ymchwil
I wneud cais gallwch gysylltu ag Ysgol y Graddedigion.
E-bost: **gradschool@southwales.ac.uk**
Ewch i: **gradschool.southwales.ac.uk**

CYMORTH AR GYFER GWNEUD CAIS

Myfyrwyr y DU
E-bost: **enquiries@southwales.ac.uk**
Ffoniwch: **03455 760 599**

Myfyrwyr Rhyngwladol a'r UE
E-bost: **international@southwales.ac.uk**
Ffoniwch: **+44 (0) 1443 654 450**

3

Ar ôl i chi wneud cais, byddwch yn cael cydnabyddiaeth drwy e-bost.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn olrhain eich cais drwy eich porth ymgeisydd.

4

Rydym yn bwriadu ymateb i'ch cais o fewn pum diwrnod gwaith* ac efallai y byddwn yn anfon neges e-bost atoch yn gofyn am ragor o wybodaeth.

NODYN ATGOFFA PWYSIG

Er mwyn osgoi oedi, gwnewch yn siŵr eich bod yn cwblhau pob rhan o'ch cais yn llawn a chofiwch atodi unrhyw ddogfennau y gofynnir amdanynt.

Ar gyfer dyddiadau cau a sesiynau cyfweld, edrychwch ar dudalen eich cwrs: **southwales.ac.uk/cymraeg/astudio-ôl-raddedig**

OS BYDD GENNYCH UNRHYW GWESTIYNAU AR ÔL I CHI WNEUD CAIS, ANFONWCH NEGES E-BOST: ADMISSIONS@SOUTHWALES.AC.UK

*Gallai hyn gymryd mwy o amser ar gyfer cyrsiau proffesiynol neu os oes angen cyfweliad

FFIOEDD A CHYLLID

Gall astudiaeth ôl-raddedig fod yn fwy fforddiadwy nag yr oeddech chi'n ei feddwl. Mae nifer o ffyrdd i ariannu eich astudiaeth ôl-raddedig, a gall hyn fod trwy gyllid i fyfyrwyr, bwrsariaethau, grantiau, ymddiriedolaethau ac elusennau neu gyfuniad o bob dewis.

FFIOEDD DYSGU

Mae ffioedd dysgu ôl-raddedig, gan gynnwys ffioedd rhan-amser, yn amrywio yn dibynnu ar beth, sut a ble yr ydych chi'n astudio. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf ewch i'n **tudalennau cyrsiau.**

Ar gyfer myfyrwyr y DU a'r UE, mae ffioedd fel arfer yn daladwy wrth gofrestru a gellir eu talu ar-lein. Gallwch hefyd dalu drwy randaliadau cynllun cardiau. Ewch i: **payments.southwales.ac.uk**

FFIOEDD YMCHWIL A CHYLLID

Am fanylion ffioedd dysgu a chyllid ar gyfer graddau ymchwil ewch i: **www.southwales.ac.uk/graddymchwil**

CYLLID ÔL-RADDEDIG

Efallai y bydd cymorth a chyllid ar gael, fel benthyciadau a grantiau myfyrwyr ôl-raddedig. I weld beth sydd ar gael a pha un a ydych chi'n gymwys, ewch i: **www.southwales.ac.uk/cymraeg/astudio/ffioedd-chyllid**

YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Efallai y bydd gennych hawl i gyllid i ariannu eich costau astudio a byw nad oes rhaid ei dalu yn ôl. Mae'r maint y mae myfyriwr yn ei gael, sut mae'n cael ei dalu a phwy gaiff yr arian yn amrywio yn dibynnu ar yr ysgoloriaeth neu'r bwrsari, ond does dim rhaid talu'r arian yn ôl fel arfer (oni bai eich bod yn penderfynu gadael y cwrs yn gynnar).

ELUSENNAU, YMDDIRIEDOLAETHAU A SEFYDLIADAU

Efallai eich bod yn gymwys i gael cymorth ariannol gan Grantiau, Ymddiriedolaethau neu Elusennau allanol neu drwy gyllid arall. Mae'n bosibl y byddwch yn gymwys i gael cyllid ychwanegol hefyd os ydych yn ofalwr di-dâl. Mae'n bosibl y bydd rhai myfyrwyr hefyd yn gallu hawlio budd-daliadau gwladol tra byddant yn astudio. Gall ein cynghorwyr eich helpu gyda cheisiadau, trefnu apwyntiad: **www.southwales.ac.uk/cymraeg/astudio/ffioedd-chyllid**

LWFANS MYFYRWYR ANABL

Os oes gennych anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol, efallai y byddwch yn yn gymwys i wneud cais am DSAs: **www.disability.southwales.ac.uk/anabledd/**

DISGOWNT CYNFYFYRWYR

Gall cyn-fyfyrwyr PDC, gan gynnwys Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Cynfyfyrwyr Casnewydd, fod yn gymwys i gael gostyngiad o 20% ar nifer o gyrsiau ôl-raddedig sy'n cofrestru yn 2023-2024*

Gabrielle Hale, Myfyriwr PhD Seicoleg

MAE'R CANLLAW AMGEN AR-LEIN AR GYLLID ÔL-RADDEDIG YN RHOI'R HOLL WYBODAETH AM FFYNONELLAU CYLLID AMGEN YN ENWEDIG ELUSENNAU SY'N GALLU RHOI ARIAN (AR GYFER FFIOEDD, CYNHALIAETH, COSTAU YMCHWIL) I UNRHYW FYFYRIWR BETH BYNNAG YW EI BWNC, NEU EI GENEDLIGRWYDD.
WWW.POSTGRADUATE-FUNDING.COM/GATEWAY

LLETY

CADWCH LYGAD

AR ÔL DERBYN CYNNIG AR GYFER EICH CWRS, BYDDWCH YN CAEL NEGES E-BOST YN GOFYN I CHI GOFRESTRU AR GYFER LLETY. FELLY, CADWCH LYGAD AR EICH MEWNFLWCH A CHOFIWCH EDRYCH YN EICH FFOLDER SOTHACH BOB AMSER.

CYSYLLTU Â NI

01443 482 845

accom@southwales.ac.uk

www.southwales.ac.uk/accommodation

Telerau ac Amodau cynnig. Cysylltwch â'n swyddfa llety.

ÔL-RADDEDIG YN UNIG

Ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig ac aeddfed yn unig. Gallwch fyw gyda phobl tebyg i chi. Astudio mewn awyrgylch tawel, gyda digwyddiadau cymdeithasol ac amwynderau ger llaw i'ch helpu i ymlacio.

RHENTU PREIFAT

Os yw'n well gennych rentu'n breifat gallwn helpu. Edrychwch drwy ein cronfa ddata o landlordiaid sydd wedi'u cofrestru gan yr awdurdodau lleol, ewch i:
www.southwalesstudentpad.co.uk

BYW GARTREF

Mae llawer o fyfyrwyr ôl-raddedig yn byw gartref ac yn cymudo i'r brifysgol. Fel myfyriwr Prifysgol De Cymru, rydych chi'n cael gostyngiad o 5% ar docynnau trên blynyddol Trafnidiaeth Cymru. Gyda champysau Pontypridd a Chasnewydd dim ond yn daith trên uniongyrchol i ffwrdd, mae nifer o fyfyrwyr yn byw yng Nghaerdydd ac yn cymudo. Cysylltwch â'n Parth Cyngor i gael manylion.

LLETY HYGYRCH

Mae cyfleusterau ychwanegol i amrywiaeth o anableddau mewn nifer o ystafelloedd. Rydym yn dyrannu ystafelloedd yn dibynnu ar ofynion unigol. Cysylltwch â'n swyddfa llety am fwy o fanylion.

LLETY RHYNGWLADOL GWARANTEDIG

Rydym yn cynnig llety gwarantedig i fyfyrwyr rhyngwladol ar gyfer astudio ôl-raddedig.* I fod yn gymwys, rhaid i chi dderbyn eich cynnig i astudio a gwneud cais am lety erbyn 5 Mehefin 2023.

AROS DROS YR HAF

Gallech fyw ar y campws yn ystod mis Gorffennaf neu fis Awst. Gellir archebu ystafelloedd am unrhyw gyfnod, yn amodol ar beth sydd ar gael.

TEULU PDC

Mae PDC yn Brifysgol amrywiol a chroesawgar, lle byddwch chi'n dod o hyd i bobl yn union fel chi. Rydym yn ymfalchïo yn y gefnogaeth yr ydym ni'n ei roi i'n myfyrwyr, gan sicrhau bod ganddynt bopeth sydd ei angen arnynt i ffynnu.

CLYBIAU A CHYMDEITHASAU

Os ydych chi'n ymuno â chymdeithas neu glwb chwaraeon yn PDC, byddwch yn cwrdd â llawer o bobl newydd ac yn cymryd rhan mewn pob math o weithgareddau, o arddangosiadau a theithiau dydd i nosweithiau allan a phartïon. Beth bynnag yw eich diddordebau, cewch gwrdd â phobl tebyg i chi neu ddarganfod rhywbeth newydd. Mae rhai o'r clybiau a'r cymdeithasau y gallech ymuno â nhw yn cynnwys LHDT+, Rocedeg, Chwaraeon Eira, Codi hwyl, Trafod, Ffilm, Rhwyfo, a Seiberddiogelwch.

MANTEISION YCHWANEGOL

O aelodaeth o gyrff proffesiynol a thocynnau am ddim i wyliau a chynyrchiadau theatr, mynediad at offer ac adnoddau technoleg o safon diwydiant, mae cymaint mwy i'ch gradd yn PDC. I gael gwybod mwy am y manteision ychwanegol sydd ar gael ar eich cwrs, ewch i: **www.southwales.ac.uk/perks/**

CYNFYFYRWYR

Ar ôl graddio, byddwch yn dod yn aelod oes o'r rhwydwaith cyn-fyfyrwyr. Cymuned fyd-eang o fwy na 250,000 o gyn-fyfyrwyr. Ymunwch â LinkedIn Cynfyfyrwyr PDC a meithrin cyfeillgarwch neu sefydlu cysylltiadau gyrfa posibl yn y dyfodol.

Byddwch hefyd yn cael cefnogaeth ar ôl graddio drwy wasanaethau Gyrfaoedd PDC sydd am ddim, mynediad i'n cyfleusterau chwaraeon, mynediad â disgownt i lyfrgelloedd, yr wybodaeth ddiweddaraf yn ein cylchgrawn i gynfyfyrwyr 'E-luminate' a mwy. Os hoffech chi roi rhywbeth yn ôl i'r brifysgol beth am roi cynnig ar wirfoddoli: **www.southwales.ac.uk/cymraeg/alumni**

UNIBUDDY

Eisiau gwybod mwy am fywyd myfyrwyr, sut beth yw astudio cwrs yn PDC neu fyw yn ne Cymru? Sgwrsiwch â'n Unibuddies, grŵp o lysgenhadon myfyrwyr sy'n gyfarwydd â phob agwedd ar fywyd myfyriwr yn PDC.

“

ROEDDWN I’N GWERTHFAWROGI YN FAWR HYBLYGRWYDD A GALLU’R TIWTORIAID I FY NGHEFNOGI DRWY’R DDWY RAGLEN Y TU ALLAN I ORIAU A THRWY ALWADAU RHEOLAIDD.

Carys Richards
MSc Rheoli Adnoddau Dynol
Uwch Is-lywydd, Adnoddau Dynol –
Y Dwyrain Canol ac Affrica yn Mastercard

FE WNES I NIFER O LEOLIADAU MEWN GWAHANOL LEOEDD, AC RWY'N CREDU MAI'R PROFIADAU A GEFAIS DRWY FY ASTUDIAETHAU YMA WNAETH GAEL FY SWYDD I MI.

Hannah Richards
MSc Dadansoddiad a Therapi Ymddygiad



DIOLCH I FY NGRADD PHD RYDW I BELLACH YN ARWEINYDD CWRS MEWN SEFYDLIAD ADDYSG BELLACH YN Y DU, GWNAETH HYN FY NGALLUOGI I BARHAU Â GWEITHGAREDDAU YMCHWIL PEDAGOGAIDD A THECHNEGOL.

Dr Abdulkareem Karasuwa
PhD Peirianneg Drydanol

“

MAE FY NGRADD YM MHRIFYSGOL DE CYMRU YN CAEL EI CHYDNABOD LEDLED Y BYD, FELLY ROEDDWN I'N FFYDDIOG Y BYDDAI'R CWRS YN RHOI'R SGILIAU, YR WYBODAETH A'R ARBENIGEDD YR OEDDWN EU HANGEN I LWYDDO.

Nency Philip Selvaraju
MSc Peirianneg a Rheolaeth Awyrennau

“

YR HYN YR YDW I WEDI'I FWYNHAU FWYAF WRTH ASTUDIO YMA YW'R CYDBWYSEDD RHWNG THEORI A'R YMARFEROL. RYDYCH CHI'N CAEL LLAWER O BROFIAD YMARFEROL AC MAE HYNNY WEDI BOD YN AMHRISIADWY I MI.

David Watson
Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol (AHO)

“

MAE’R CWRS WEDI EI DEILWRA AR GYFER CYFLOGADWYEDD. MAE EI GYNNWYS O’R SAFON UCHAF, A BYDD YN GWELLA EICH SGILIAU. FELLY, FYDDWCH CHI DDIM ALLAN O’CH DYFNDER MEWN CYFLOGAETH BROFFESIYNOL.

Bradley Bowckett
MA Ffilm (Ysgrifennu ar gyfer y Sgrin)

YR HYN SY'N GWNEUD I'R CWRS HWN SEFYLL ALLAN YW EIN BOD NI'N CAEL CYFLE I ROI GWYBODAETH AR WAITH DRWY LEOLIAD AR ÔL BLWYDDYN O DDYSGU.

Sri Satyavolu
MBA (Meistr Gweinyddiaeth Busnes) Byd-eang

MYNEGAI CYRSIAU

CWRS	CYMHWYSTER	CAMPWS	MODD O ASTUDIO	DYDDIAD DECHRAU
CYFRIFEG A CHYLLID				
Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA)	ACCA	CN	FT	Medi
Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA)	ACCA	CN	PT	Medi | Ion
Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW)	ICAEW	CN	PT	Medi | Ion
Rheoli Gwasanaethau Ariannol	MSc	C	PT	Medi
Cyfrifeg Broffesiynol (gyda hyfforddiant ACCA)	MSc	CN	FT | PT	Medi | Ion
Cyllid a Buddsoddi	MSc	P	FT | PT	Medi | Chwe
Archwilio a Chyfrifeg Fforensig	MSc	P	FT | PT	Medi | Chwe
ANIMEIDDIO A GEMAU				
Animeiddio	MA	C	FT | PT	Medi
Menter Gemau	MA	C	FT | PT	Medi
CELF A DYLUNIO				
Ymarfer Celf (Y Celfyddydau, Iechyd a Lles)	MA	C	PT	Medi
Seicotherapi Celf	MA	CN	PT	Medi
Dylunio ac Arloesi	MA	C	FT | PT	Medi
Cyfathrebu Graffeg	MA	C	FT | PT	Medi
AMGYLCHEDD ADEILEDIG				
Rheoli Prosiectau Adeiladu	MSc**	P	FT | PT	Medi | Chwe†
Diogelwch, Iechyd a Rheolaeth Amgylcheddol	MSc	P	FT | PT	Medi | Chwe†
BUSNES A RHEOLAETH				
Doethur mewn Gweinyddiaeth Busnes	DBA	P D	FT | PT	Medi | Chwe
Gradd Meistr mewn Gweinyddiaeth Busnes*	MBA**	P	FT	Medi | Chwe
Gradd Meistr mewn Gweinyddiaeth Busnes*	MBA**	CN	PT	Medi
Gradd Meistr mewn Gweinyddiaeth Busnes Byd-eang	MBA	CN	FT	Medi | Chwe
Gradd Meistr mewn Gweinyddiaeth Busnes Byd-eang – Y Gadwyn Gyflenwi	MBA	CN	FT	Medi | Chwe
Gradd Meistr mewn Gweinyddiaeth Busnes Byd-eang – Marchnata	MBA	CN	FT	Medi | Chwe
Gradd Meistr mewn Gweinyddiaeth Busnes Byd-eang – Rheoli Adnoddau Dynol	MBA	CN	FT	Medi | Chwe

*Yn amodol ar ail-ddilysiad **Cyfleoedd Cymraeg. †Chwefror: Llawn-amser yn unig.

Modd astudio: FT: Amser llawn | **PT:** Rhan-amser

Campws: P Pontypridd **C** Caerdydd **CN** Casnewydd **D** Dysgu o bell

CWRS	CYMHWYSTER	CAMPWS	MODD O ASTUDIO	DYDDIAD DECHRAU
BUSNES A RHEOLAETH (PARHAD)				
Gradd Meistr mewn Gweinyddiaeth Busnes Byd-eang – Cyllid	MBA	CN	FT	Medi | Chwe
Gradd Meistr mewn Gweinyddiaeth Busnes Byd-eang Entrepreneurship	MBA	CN	FT	Medi | Chwe
Rheoli*	MSc**	P	FT	Medi | Chwe
Rheoli Peirianneg*	MSc**	P	FT	Medi | Chwe
Rheoli Adnoddau Dynol	MSc	P	FT	Medi | Chwe
Rheoli Adnoddau Dynol	MSc	CN	PT	Medi
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	MSc**	CN	PT	Medi
Arweinyddiaeth ym maes Gofal Iechyd	MSc | PgDip	D	PT	Medi | Mawrth
Rheoli Prosiect	MSc	P	FT | PT	Medi | Chwe
Marchnata Strategol a Digidol	MSc	C	FT | PT	Medi
Rheoli Caffael Strategol	MSc	P	FT | PT	Medi | Chwe
Rheoli Caffael Strategol	MSc	CN	PT	Medi
Logisteg Ryngwladol a Rheoli'r Gadwyn Gyflenwi	MSc	P	FT	Medi | Chwe
Logisteg Ryngwladol a Rheoli'r Gadwyn Gyflenwi	MSc	CN	PT	Medi
CYFRIFIADUREG				
Gwyddor Gyfrifiadurol	MSc	P	FT | PT	Medi | Chwe†
Deallusrwydd Artiffisial	MSc	P	FT | PT	Medi | Chwe†
Gwyddor Data	MSc	P	FT | PT	Medi | Chwe†
Seiberddiogelwch Gymhwysol	MSc	CN	FT | PT	Medi | Chwe†
Fforensig Cyfrifiadurol	MSc	P	FT | PT	Medi
Diogelwch Systemau Cyfrifiadurol	MSc	P	FT | PT	Medi
Systemau Cyfrifiadurol a Gwybodaeth	MSc	P	FT | PT	Medi | Chwe†
TROSEDDEG				
Trosedd a Chyfiawnder	MSc	P	FT | PT	Medi
Gweithio gydag Oedolion sy'n Troseddu a Throseddwyr Ifanc	MSc	P	FT | PT	Medi

*Yn amodol ar ail-ddilysiad **Cyfleoedd Cymraeg. †Chwefror: Llawn-amser yn unig.

Modd astudio: FT: Amser llawn | **PT:** Rhan-amser

Campws: P Pontypridd C Caerdydd CN Casnewydd D Dysgu o bell

CWRS	CYMHWYSTER	CAMPWS	MODD O ASTUDIO	DYDDIAD DECHRAU
ADDYSG				
CAMH (Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed)	MA | PgCert**	CN	FT | PT	Medi
Addysg (Arloesedd ym maes Dysgu ac Addysgu)	MA | PgCert**	CN	FT | PT	Medi
Addysg (Cymru)	MA	CN	PT	Medi
MA Addysg (Cymru) Anghenion Dysgu Ychwanegol	MA	CN	PT	Medi
MA Addysg (Cymru) Arweinyddiaeth	MA	CN	PT	Medi
Arweinyddiaeth a Rheolaeth (Addysg)	MA | PgCert**	CN	FT | PT	Medi
Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PcET)	PGCE | PgCE | ProfCE	CN	FT | PT	Medi
AAA/ADY (Awtistiaeth)	MA | PgCert**	CN	FT | PT	Medi
AAA/ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol)	MA | PgCert**	CN	FT | PT	Medi
AAA/ADY (Anawsterau Dysgu Penodol)	PgDip	CN	PT	Medi
Dychwelyd i Addysgu	University Certificate	CN	PT	March
PEIRIANNEG				
Peirianneg Awyrenegol	MSc	P	FT	Medi | Chwe
Peirianneg a Rheolaeth Awyrennau	MSc	P	FT | PT	Medi | Chwe†
Peirianneg Sifil (Strwythurol)	MSc	P	FT | PT	Medi | Chwe†
Peirianneg Sifil (Amgylcheddol)	MSc	P	FT | PT	Medi | Chwe†
Electroneg a Thechnoleg Gwybodaeth	MSc	P	FT | PT	Medi | Chwe†
Peirianneg Fecanyddol	MSc	P	FT	Medi | Chwe
Cyfathrebu Symudol a Lloeren	MSc	P	FT | PT	Medi | Chwe
Peirianneg Broffesiynol	MSc	D	PT	Medi | Chwe
SAESNEG				
Saesneg drwy Ymchwil	MA	P	FT | PT	Ion | Ebr | Hyd
MPhil (Ysgrifennu)	MPhil	P	PT	Hydref
GWYDDORAU AMGYLCHEDDOL				
Uwch Wyddorau Daear Maes Cymhwysol	MSc	P	FT | PT	Medi
Ynni Adnewyddadwy a Thechnoleg Gynaliadwy	MSc	P	FT | PT	Medi | Chwe†
Bywyd Gwyllt a Rheolaeth Gadwraethol	MSc	P	FT | PT	Medi
Diogelwch, Iechyd a Rheolaeth Amgylcheddol	MSc	P	FT | PT	Medi | Chwe†

*Yn amodol ar ail-ddilysiad **Cyfleoedd Cymraeg. †Chwefror: Llawn-amser yn unig.

Modd astudio: FT: Amser llawn | **PT:** Rhan-amser

Campws: P Pontypridd **C** Caerdydd **CN** Casnewydd **D** Dysgu o bell

CWRS	CYMHWYSTER	CAMPWS	MODD O ASTUDIO	DYDDIAD DECHRAU
FFILM				
Ffilm	MA	C	FT	Medi
Ffilm (Sinematograffi)	MA	C	FT	Medi
Ffilm (Cyfarwyddo)	MA	C	FT	Medi
Ffilm (Rhaglenni Dogfen)	MA	C	FT	Medi
Ffilm (Golygu)	MA	C	FT	Medi
Ffilm (Rheoli Cynyrchiadau)	MA	C	FT	Medi
Ffilm (Ysgrifennu ar gyfer y Sgrin)	MA	C	FT	Medi
Ffilm (Effeithiau Gweledol)	MA	C	FT	Medi
IECHYD				
Meddygaeth Acíwt	MSc | PgDip	D	PT	Medi | Mawrth
Gofal Acíwt a Chritigol	PgCert | BSc (Hons)	P	PT	Medi
Uwch Ymarferydd Clinigol	MSc	P	PT	Medi
Economeg Iechyd Gymhwysol	MSc | PgDip	D	PT	Medi | Mawrth
Seiciatreg Glinigol	MSc | PgDip	D	PT	Medi | Mawrth
Astudiaethau Iechyd Cymunedol (Nyrsio Dosbarth Ymarferydd Arbenigol)	MSc	P	PT	Medi
Astudiaethau Iechyd Cymunedol (Nyrsio Plant Cymunedol)	MSc	P	PT	Medi
Astudiaethau Iechyd Cymunedol (Ymarferydd Arbenigol Nyrsio Plant Cymunedol)	BSc (Hons)	P	PT	Medi
Astudiaethau Iechyd Cymunedol (Nyrsio Ardal Ymarferwyr Arbenigol) gyda V100 integredig	BSc (Hons)	P	PT	Medi
Astudiaethau Iechyd Cymunedol (Ymarferydd Arbenigol Nyrsio Ymarfer Cyffredinol)	BSc (Hons)	P	PT	Medi
Meddygaeth Gosmetig	MSc | PgDip	D	PT	Medi | Mawrth
Astudiaethau Dementia	MSc	P	FT | PT	Medi
Dermatoleg mewn Ymarfer Clinigol	MSc | PgDip	D	PT	Medi | Mawrth
Clefyd y Siwgr	MSc | PgDip	D	PT	Medi | Mawrth
Addysg ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd	PgCert	P	PT	Medi
Endocrinoleg	MSc | PgDip	D	PT	Medi | Mawrth
Gastroenteroleg	MSc | PgDip	D	PT	Medi | Mawrth
Meddygaeth a Gofal Iechyd Genomeg	PgDip	D	PT	Medi | Mawrth
Practis Rhagnodi Annibynnol	40 credit module	P	PT	Medi
Arweinyddiaeth ym maes Gofal Iechyd	MSc | PgDip	D	PT	Medi | Mawrth

Modd astudio: FT: Amser llawn | **PT:** Rhan-amser

Campws: P Pontypridd C Caerdydd CN Casnewydd D Dysgu o bell

CWRS	CYMHWYSTER	CAMPWS	MODD O ASTUDIO	DYDDIAD DECHRAU
IECHYD (PARHAD)				
Addysg Feddygol	MSc | PgDip	D	PT	Medi | Mawrth
Nyrsio (Iechyd Oedolion)	PgDip	P	FT	Medi
Nyrsio (Iechyd Plant)	PgDip	P	FT	Medi
Nyrsio (Anableddau Dysgu)	PgDip	P	FT	Medi
Nyrsio (Iechyd Meddwl)	PgDip	P	FT	Medi
Gordewdra a Rheoli Pwysau	MSc | PgDip	D	PT	Medi | Mawrth
Rheoli Poen	MSc | PgDip	D	PT	Medi | Mawrth
Gofal Lliniarol	PgCert	D	PT	Medi
Meddygaeth Gardiofasgwlaidd Ataliol	MSc | PgDip	D	PT	Medi | Mawrth
Ymarfer Proffesiynol	MSc	P	FT | PT	Medi
Iechyd Cyhoeddus	MSc	P	FT | PT	Medi | Chwe
Meddygaeth Arennol	MSc | PgDip	D	PT	Medi | Mawrth
Meddygaeth Anadlol	MSc | PgDip	D	PT	Medi | Mawrth
Dychwelyd i Ymarfer	40 credit module	P	PT	Ion
Rhewmatoleg	MSc | PgDip	D	PT	Medi | Mawrth
Meddygaeth Rywiol ac Atgynhyrchu	MSc | PgDip	D	PT	Medi | Mawrth
Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (Ymweliadau Iechyd) (Nyrsio Ysgol)	MSc | BSc (Hons)	P	FT | PT	Ebrill
Meddygaeth Chwaraeon ac Ymarfer Corff	MSc | PgDip	D	PT	Medi | Mawrth
HANES				
Hanes drwy Ymchwil	MA	P	FT | PT	Ion | Ebr | Hyd
NEWYDDIADURIAETH				
Newyddiaduriaeth Weledol	MA	C	FT	Medi
Y GYFRAITH				
Cwrs Ymarfer Cyfreithiol	LPC	P	FT | PT	Medi
Cyfreithiau	LLM	P	FT | PT	Medi | Chwe
Cyfreithiau (Cyfreithiau Masnachol Rhyngwladol)	LLM	P	FT | PT	Medi | Chwe
Ymarfer Cyfreithiol	LLM	P	FT | PT	Medi

Modd astudio: FT: Amser llawn | **PT:** Rhan-amser

Campws: P Pontypridd C Caerdydd CN Casnewydd D Dysgu o bell

CWRS	CYMHWYSTER	CAMPWS	MODD O ASTUDIO	DYDDIAD DECHRAU
CERDDORIAETH A PHERFFORMIO				
Drama	MA	C	FT | PT	Medi
Peirianneg a Chynhyrchu Cerddoriaeth	MSc	C	FT | PT	Medi
Ysgrifennu a Chynhyrchu Caneuon	MA	C	FT | PT	Medi
FFOTOGRAFFIAETH				
Ffotograffiaeth Ddogfennol	MA	D	PT	Medi
PLISMONA A DIOGELWCH				
Diogelwch Rhyngwladol a Rheoli Risg	MSc	D P	FT | PT	Medi
Plismona Proffesiynol	MA	D	FT | PT	Medi
SEICOLEG, SEICOTHERAPI A CHWNSELA				
Seicoleg Glinigol	MSc	P	FT | PT	Medi
Sgiliau Therapi Ymddygiad Gwybyddol	PgCert	CN	PT	Medi
Seicoleg Cwnsela	DPsych	CN	FT | PT	Medi
Cwnsela a Seicotherapi Integreiddiol	MA | PgDip	CN	PT	Medi
Sgiliau Cwnsela Integreiddiol	PgCert	CN	PT	Ion
Dadansoddi Ymddygiad a Goruchwylio Ymarfer	PgDip	P	FT	Medi | Chwe
Therapi Cerdd	MA	CN	PT	Medi
Therapi Chwarae	MSc	CN	PT	Medi
Seicoleg yn ôl Ymchwil	MSc	P	FT | PT	Medi
Seicotherapi Celf	MA	CN	PT	Medi

Modd astudio: FT: Amser llawn | **PT:** Rhan-amser

Campws: P Pontypridd **C** Caerdydd **CN** Casnewydd **D** Dysgu o bell

CWRS	CYMHWYSTER	CAMPWS	MODD O ASTUDIO	DYDDIAD DECHRAU
ASTUDIAETHAU CREFYDDOL				
Astudiaethau Bwdhaeth	MA	D	PT	Chwe
GWYDDONIAETH				
Gwyddor Ddadansoddol a Fforensig	MSc	P	FT | PT	Medi
Gwyddor Gymhwysol	MRes	P	FT	Medi
Cemeg Fferyllol	MSc	P	FT	Medi | Chwe
POLISI CYMDEITHASOL				
Rheoli Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus	MSc	P	FT	Medi
CHWARAEON				
Uwch Hyfforddiant Cryfder a Chyflyru	MSc	P	FT | PT	Medi
Uwch Hyfforddiant Perfformiad Pêl-droed	MSc	P	FT | PT	Medi
Arweinyddiaeth ym maes Chwaraeon	MA	P	FT | PT	Ion
Datblygiad Personol ym maes Chwaraeon	PgCert	P	PT	Ion
Meddygaeth Chwaraeon ac Ymarfer Corff	MSc | PgDip	D	PT	Medi | March
Gwyddor Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer Corff	MSc	P	FT | PT	Medi
Hyfforddiant a Pherfformiad Chwaraeon	MSc	P	FT | PT	Medi
Hyfforddiant a Datblygiad Gweithredol	MSc	CN	PT	Medi
GWAITH IEUENCTID				
Gweithio ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (Cymhwyster Cychwynnol Gwaith Ieuenctid)	MA	CN	FT | PT	Medi

Modd astudio: FT: Amser llawn | **PT:** Rhan-amser

Campws: P Pontypridd C Caerdydd CN Casnewydd D Dysgu o bell

ACHREDIADAU

Mae llawer o gyrsiau wedi'u hachredu, felly rydych chi'n ennill cymhwyster a gydnabyddir yn eich proffesiwn. Dysgwch fwy ar ein tudalennau cyrsiau.

The Institution of StructuralEngineers

APPROVED LEARNING PARTNER ACCA Platinum

course accredited by bacp www.bacp.co.uk/courses
BACP is the Trade Mark of the British Association for Counselling & Psychotherapy

CIPR RECOGNISED COURSE

The Chartered Institute of Logistics and Transport

apm Accredited

idm the institute of direct and digital marketing accredited

ICAEW PARTNER IN LEARNING

Recognised as an ICAEW Partner in Learning, working with ICAEW in the professional development of students

CIEEM Chartered Institute of Ecology and Environmental Management

CIPD

RICS

Institution of MECHANICAL ENGINEERS

The Chartered Society of Forensic Sciences

PERMANENT WAY INSTITUTION
THE PROFESSIONAL COMMUNITY FOR RAIL INFRASTRUCTURE ENGINEERING

iosh

energy institute Learning Affiliate

CIPS Accredited

www.bapt.info BAPT British Association of Play Therapists

hcpc health & care professions council

TIGERSCHEME Providing excellence in penetration testing

INSTITUTE OF HIGHWAY ENGINEERS IHE

ROYAL AERONAUTICAL SOCIETY

CIHT

ice

IET The Institution of Engineering and Technology

JBM JOINT BOARD OF MODERATORS

The British Psychological Society Accredited

GWYBODAETH DDEFNYDDIOL

YNGLŶN Â'R CANLLAW HWN

Mae'r canllaw yn rhoi canllawiau cyffredinol ac nid yw'n rhan o unrhyw gontract. Mae'r wybodaeth a roddwyd wedi cael ei chynhyrchu ymhell cyn cyflwyno'r cyrsiau a amlinellwyd ar gyfer myfyrwyr sydd i fod i fynd i mewn i'r Brifysgol ym mlwyddyn academaidd 2022/23. Er y credir ei fod yn gywir adeg ei lunio, dylid gwirio ein gwefan am y sefyllfa ddiweddaraf. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ddiwygio neu i ddod â chyrsiau i ben, neu newid cyfleusterau, fel ymateb i amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth neu pan fo o'r farn ei bod yn rhesymol angenrheidiol i wneud hynny. Bydd y Brifysgol yn ymdrechu i ymateb i newid drwy ymgynghori â'r rhai yr effeithir arnynt a/neu gymryd camau adferol i'w helpu. I gael manylion ynglŷn â ffioedd ac arian, gweler tudalen 12. Am yr wybodaeth ddiweddaraf, ewch i: **www.southwales.ac.uk/cymraeg/astudio/ffioedd-chyllid**

SICRWYDD ANSAWDD

Mae logo diemwnt y QAA a 'QAA' yn nodau masnach cofrestredig yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch ac maent yn dangos bod y Brifysgol wedi cael ei hadolygu'n annibynnol o ran safon y ddarpariaeth o addysg uwch, ac wedi cyflawni canlyniad llwyddiannus.

QAA Cymru
UK Quality Assured
Sicrwydd Ansawdd y DU

DYLUNIO

Cynhyrchwyd gan yr Adran Marchnata a Recriwtio Myfyrwyr. Diolch o galon i bawb a helpodd gyda'r prosiect hwn.

Dylunio: Argraffu a Dylunio PDC
www.argraffuadyluniopdc.co.uk

STATWS ELUSEN

Mae Prifysgol De Cymru yn elusen gofrestredig. Rhif cofrestru 1140312.

GRWP PRIFYSGOL DE CYMRU

Mae Grŵp Prifysgol De Cymru yn cynnwys Prifysgol De Cymru, Y Coleg Merthyr Tudful, a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

EIN HYMRWYMIAD

SIARTER

Mae'r Siarter Myfyrwyr yn cael ei datblygu ar y cyd gan y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr. Mae'n esbonio ymrwymiad y Brifysgol i weithio mewn partneriaeth â chi i ddarparu profiad myfyriwr o safon uchel a'ch helpu i sicrhau llwyddiant personol ac academaidd: **www.southwales.ac.uk/gwerthoedd**

HYGYRCHEDD

Mae Prifysgol De Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu gwefannau a chyhoeddiadau sy'n gwbl gynhwysol. Rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pob tudalen ar y wefan ac mewn cyhoeddiadau yn cydymffurfio â chanllawiau hygyrchedd. Oherwydd maint a chymhlethdod presenoldeb gwe'r Brifysgol mae hon yn broses barhaus. Er mwyn gwneud ein cyhoeddiadau mor hygyrch â phosibl, rydym yn cynnig dwy ffordd o gael gafael arnyn nhw, eu gwylio a'u darllen. Gallwch naill ai eu darllen drwy blatfform ISSUU neu edrych ar-lein a lawrlwytho PDF. Datblygwyd y ffeil PDF i fod yn hygyrch. Yna rydym yn defnyddio'r union ffeil hon a'i lanlwytho i ISSUU i gadw cymaint o'r nodweddion hygyrchedd â phosibl trwy'r platfform. I ddarllen pa nodweddion hygyrchedd sydd wedi'u gweithredu o fewn y PDF, ewch i'n gwefan. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu adborth ynghylch hygyrchedd y wefan hon neu ein cyhoeddiadau, neu os byddwch yn cael unrhyw anhawster, cysylltwch â ni.

I gael cymorth gyda hygyrchedd, e-bostiwch: **accessibility@southwales.ac.uk**

I gael cymorth gydag anableddau neu anghenion ychwanegol, anfonwch neges e-bost: **disabilityadviser@southwales.ac.uk**

CYN I CHI WNEUD CAIS

Mae'r Brifysgol yn adolygu ei phortffolio o gyrsiau yn rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r ansawdd gorau posibl. Rydym hefyd yn diweddaru a diwygio cynnwys y cwrs yn ôl yr angen i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfredol. Rydym yn cynghori ymgeiswyr yn gryf i edrych ar ein gwefan am yr wybodaeth ddiweddaraf am gyrsiau, cynnwys cyrsiau, gofynion mynediad a chostau ychwanegol cyn cyflwyno eu cais.

DECHREUWCH EICH YFORY, HEDDIW.

Prifysgol De Cymru | | Pontypridd Cymru | DU |CF37 1DL

Ffoniwch (DU): **03455 760 599**
Ffoniwch (o dramor): **+44 (0)1443 654 450**
Ewch i: **decymru.ac.uk**

Chwiliwch: **Prifysgol De Cymru**

Mae Prifysgol De Cymru yn elusen gofrestredig. Rhif cofrestru rhif 1140312
Fersiwn 1, cynhyrchwyd Gorffennaf 2022.